

Tasg 1

Gyrfaoedd ym myd arian

1.

Gosodiad	Banc neu gymdeithas adeiladu	Cyfrifeg	Yswiriant	Cynllunio ariannol
a) Mae gan gwmni enwog yn y maes hwn sawl swyddfa yn Ne Cymru.				
b) Mae angen gradd mewn Mathemateg a hyfforddiant pellach i weithio yn y maes hwn.				
c) Mae gweithwyr yn y maes hwn yn rhoi cyngor i bobl er mwyn paratoi at eu dyfodol ariannol.				
ch) Mae amrywiaeth fawr o swyddi yn y maes hwn, a chyfle i weithio ledled Cymru.				
d) Bydd rhai pobl yn gweithio gyda gweithwyr yn y maes hwn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn talu'r dreth gywir.				
dd) Mae gweithwyr yn y maes hwn yn cydweithio â swyddogion tân neu feddygon weithiau.				

2. a) Ydy gweithio ym myd arian o ddiddordeb i chi? Rhwch resymau dros eich ateb.

b) Hyd yn oed os nad ydych chi eisiau mynd i weithio i fyd arian, rhwch y pedwar maes sy'n cael eu cynnig yn nhrefn blaenoriaeth o 1 i 4.

c) Oes rhywun yn y dosbarth sydd â rhiant neu aelod o'r teulu sy'n gweithio yn y maes? Pa argraff rydych chi'n ei chael o'u swydd, neu beth maen nhw'n ei ddweud wrthoch chi amdani? Er enghraifft, ydy'r oriau gweithio'n hir, ydy'r tâl yn dda?

3. a) Pa wybodaeth benodol y gofynnodd Bedwyr amdani am y gwahanol swyddi sydd ar gael?

i)

ii)

b) Pa wybodaeth **arall** y gallai fod ar Bedwyr ei heisiau cyn penderfynu ar ei yrfa? Meddyliwch am o leiaf **ddau** bwynt.

i)

ii)

4. Meddyliwch am enghreifftiau go iawn lle gallai pobl ym maes **yswiriant** fod eisiau cydweithio â:

i) swyddogion tân

ii) meddygon

5. Mae Bedwyr yn sôn ei fod yn 'dilyn hynt a helynt y farchnad stoc'. Beth yw ystyr hyn?

6. **Dewiswch a chopiwch** y gair y mae Bedwyr yn ei ddefnyddio yn lle 'mawr' yn yr ymadrodd 'mae gen i ddiddordeb **mawr** mewn...'

Meddyliwch am eiriau eraill sydd â'r un bôn neu chwiliwch amdanynt mewn geiriadur:

Defnyddiwch y geiriau yn eich brawddegau newydd eich hun.

i)

ii)

7. Gwnewch gasgliad o'r holl oriau sy'n gysylltiedig â byd arian yn y darn. Mae dros ugain i gyd!

Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr pob un? Trafodwch â'ch partner, drwy roi'r geiriau mewn brawddegau byr newydd ar lafar.

8. Mae nifer o ferfenwau'n cael eu dilyn gan arddodiaid (e.e. am, ar, at) yn y darn. Heb edrych ar y darn, rhwch yr arddodiad cywir ar ôl pob berfenw. Gallwch wirio eich atebion drwy edrych ar y darn.

i)	gofalu	gyfrifon
ii)	edrych	incwm
iii)	diolch	bob cymorth
iv)	yswirio	damwain
v)	ymddiddori	myd arian
vi)	cydweithio	meddygon
vii)	trafod	chwsmeriaid
viii)	rhoi cyngor	rywun
ix)	canolbwyntio	roi cyngor
x)	cysylltu	mi

9. Pa swydd nad yw Mari Taylor wedi sôn amdani? Meddyliwch am elusennau.

10. Chwiliwch am ddau ymadrodd yn y darn sy'n golygu 'ym mhob rhan o'r wlad/o Gymru'.

i)

ii)

11. Sut mae Bedwyr a Mari yn gorffen eu he-byst? A fyddech chi'n gorffen llythyr ffurfiol yn yr un ffordd? Sut felly?